Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 15 Mawrth 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) fu'n llywyddu – Cofnodion 144-151
Y Cynghorydd C E Lloyd (Is-gadeirydd) fu'n llywyddu – Cofnodion 152-161

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Sherwood | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

### 144. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018; a
2) Chyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018.

### 145. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorwyr M C Child, W Evans, R Francis-Davies, M Sherwood, R Stewart ac M Thomas - Personol - Cofnod Rhif 156 - "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

Y Cynghorwyr A S Lewis a J A Raynor - Personol a rhagfarnol - Cofnod Rhif 156 - "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

Y Cynghorydd J A Raynor - Personol - Cofnod Rhif 159 a 161 - "Gwerthu Tir Dros Ben yn Ysgol Gyfun yr Olchfa".

### 146. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**147. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**148. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**149. Ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a Phlismona 2014 Ddeddf**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gymunedau Cryfach a Thai, Ynni a'r Gwasanaethau Adeiladau adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o'r ddeddf newydd sef Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**.**

**Penderfynwyd**:

1) Bod gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar gyfer Pobl, Lleoedd ac Adnoddau awdurdod dirprwyedig i arfer, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, y pwerau newydd sydd ar gael i'r cyngor fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad;
2) Bod gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar gyfer Pobl, Lleoedd ac Adnoddau awdurdod dirprwyedig, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, i gychwyn achosion ar gyfer gwaharddebau dinesig, rhoi Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned, creu Gwarchodebau Mannau Cyhoeddus a rhoi gorchmynion cau am 24 awr ynghyd ag awdurdod i roi Hysbysiadau o Gosb Benodol o dan Ran 4, Pennod 1 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014; ac
3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes i gyflwyno ceisiadau am unrhyw estyniad angenrheidiol i orchymyn cau am 24 awr neu gyflwyno ceisiadau ar gyfer rhoi gorchymyn am gyfnod o 48 awr.

**150. Gwaith Archwilio'r Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi ar y cynnig gofal plant i blant 3 a 4 oed.**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhelliad i gryfhau'r Cynnig Gofal Plant.

**Penderfynwyd** y dylid:

1) Ysgrifennu llythyr i Lywodraeth Cymru i: (i) Ofyn am hyblygrwydd i feini prawf cymhwysedd y cynnig (ii) Ceisio sicrhad y bydd y cynnig yn un tymor hir a
2) Datblygu ymagwedd gydlynol at gyflogadwyedd (drwy'r Fforwm Partneriaeth Tlodi) fel bod rhieni plant ifanc yn cael eu blaenoriaethu er mwyn bod mewn sefyllfa i elwa o'r Cynnig Gofal Plant.

**151. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 3 2017-18.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn amlinellu'r perfformiad corfforaethol ar gyfer 3ydd Chwarter 2017-18.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 152. Cynllun Ardal Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Ardal Bae'r Gorllewin (2018-2023) a'r Cynllun Gweithredu (2018/19).

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo Cynllun Ardal a Chynllun Gweithredu Bae'r Gorllewin;
2) Awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi dolen â'r Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu ar wefan y cyngor; ac
3) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Pobl i gyflwyno Cynllun Ardal a Chynllun Gweithredu i Weinidogion Cymru ar ran y tri awdurdod lleol a bwrdd iechyd rhanbarth Bae'r Gorllewin, wedi'u cydlofnodi gan arweinydd y Cyngor ac arweinwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot a Chadeirydd Bwrdd Iechyd PABM.

## 153. Strategaeth Atal ar gyfer Abertawe 2018 - 2021

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Atal a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig i'w cymeradwyo'n dilyn ymgynghoriad estynedig.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Atal a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig.

## 154. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeedig)**

## 155. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles achos busnes er mwyn rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (CCISC) ar waith yng Nghyngor Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**(Sesiwn agored)**

## 156. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod  Lleol.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ar ran Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd er mwyn llenwi swyddi gwag Llywodraethwyr Awdurdod Lleol mewn cyrff llywodraethu.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r enwebiadau a restrir isod:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Gellifedw | Mrs Dawn Knight |
| 2. | Ysgol Gynradd Dyfnant | Y Cyng. Louise Gibbard |
| 3. | Ysgol Gynradd Gwyrosydd | Y Tad David Jones<br>Y Cyng. Michael Lewis |
| 4. | Ysgol Gyfun yr Esgob Gore | Y Cyng. Peter Jones |
| 5. | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Y Cyng. Lynda James |

## 157. Rhaglen Cynnal Cyfalaf Adeiladau 2018/19.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni a Gwasanaethau Adeiladau adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A (i'r adroddiad); a
2) Chynnwys y goblygiadau ariannol a nodwyd yn Atodiad B ac C (i'r adroddiad) yn y rhaglen gyfalaf.

## 158. FPR7 Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2018-2019.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Amgylcheddol adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad am y Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r dyraniadau arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A (yr adroddiad), ac y dylid eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf; a
2) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant, ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd, flaenoriaethu, cwblhau a dyrannu cyllid i'r cynlluniau hynny na chyfeirir yn benodol atynt yn yr adroddiad.

**159. Gwaredu tir dros ben yn ysgol gyfun yr Olchfa.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn manylu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 mewn perthynas â'r bwriad i'w werthu fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Nododd Aelod y Cabinet fod ffeil sy'n cynnwys yr holl ohebiaeth o ran yr ymgynghoriad a gynhaliwyd wedi'i roi yn Swyddfa’r Cabinet i holl aelodau'r Cabinet ei weld.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried a nodi'r ymatebion/gwrthwynebiadau i'r gwerthu arfaethedig;
2) Datgan nad oes angen y safle sydd oddeutu 7.8 erw (31,566m2) fel y'i dangosir ar y cynlluniau, yn amodol ar ddefnyddio elw o'r gwerthiant i ddarparu arwyneb gemau artiffisial; a
3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd i fwrw ymlaen â'r gwerthu trwy farchnata'r tir a nodwyd ac adrodd yn ôl i'r Cabinet maes o law wedi iddo wneud hynny.

**160. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeedig)**

**161. Gwaredu tir dros ben yn ysgol gyfun yr Olchfa.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad 'er gwybodaeth' ynghylch prisio'r safle a gwybodaeth ariannol o ran gwerthu'r tir dros ben yn Ysgol Gyfun yr Olchfa (Cofnod 159 uchod).

Nodwyd bod Atodiad B, y cyfeirir ato yn yr adroddiad, wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 159 (Cynllun diwygiedig gan gynnwys maes chwarae 3G newydd maint llawn).

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

**Cadeirydd**

**Cyhoeddwyd ar: 19 Mawrth 2018**